***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol*

### 11 Dyletswydd i benderfynu: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach

(1) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (3) yn gymwys.

(2) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan berson ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (3) yn gymwys.

(3) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Rhan hon;

(b) bod y corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol a bod y corff llywodraethu wedi ei fodloni—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(ii) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;

(c) bod y penderfyniad yn ymwneud â pherson ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;

(d) bod y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad arall (a bod y sefydliad hwnnw yn ysgol neu'n sefydliad yn y sector addysg bellach) a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc;

(e) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

(4) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (gweler adran 17 (dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod sy'n gofalu am blentyn)), oni bai bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 11(3)(c) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(a)**

**C2** A. 11(4) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(a)**

**C3** A. 11(4) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I3** A. 11 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I4** A. 11 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(b)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I5** A. 11 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(b)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**I6** A. 11 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(b)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.